**December 2009 Newsletter**
**I weld y fersiwn Cymraeg, cliciwch yma**

Welcome to the **Wales Audit Office** newsletter, keeping you up-to-date with some of the latest news from our organisation.

Key news this month

- Changes to local government audit and inspection
- New Executive Committee
- Consulting on our Code of Audit Practice
- Local Government Fees
- Launching the Good Practice Portal
- Our presence at autumn conferences
- Join us on Twitter
- Recent Reports
- Forthcoming Reports

## Changes to Local Government Audit and Inspection

In our last e-bulletin, we outlined the changes that we are introducing to our performance and inspection work across local government, fire authorities and national parks – in light of the new Local Government Measure.

During October we held a series of more detailed workshops for Chief Executives and Improvement leads within the sector, to introduce them to our new methodology and reporting plans.

We were joined by colleagues from the Welsh Assembly Government who explained the intent and impact of the Measure more broadly. The Assembly Government is now consulting on statutory guidance relating to the Measure.

Our new delivery teams have now been assigned to individual local authorities and are about to begin work on the new audit and inspection framework.

For more information, please contact **Jane Holownia** on **029 2032 0565** or email jane.holownia@wao.gov.uk

## New Executive Committee

The Auditor General has appointed a new Executive Committee to provide a more directive style of leadership for the Wales Audit Office. The new management structure has been endorsed by the recent International Peer Review of the organisation. It replaces the existing Management Committee and the Partnership Board. The Auditor General will chair the Executive Committee – which comprises three Managing Partners:

- Managing Partner Financial Audit – Anthony Barrett
- Managing Partner Performance Audit – Gillian Body
- Managing Partner Planning and Resources – Kevin Thomas

Click here for more information about the Wales Audit Office management structure.

## Consulting on our Code of Audit Practice

The Auditor General has revised his Code of Audit Practice to take into account the Local Government (Wales) Measure 2009 and other changes that have occurred since the original Code was published in 2005.

The Code of Audit Practice prescribes the way in which auditors are to carry out their functions, and embodies what appears to the Auditor General to be best professional practice.

It is our intention that the revised Code, which needs to be approved by the National Assembly for Wales, will be published and come into effect on 1 April 2010.

Read the draft Code and further information here.

We would appreciate your views on the revised Code by **29 January 2010.** Email the Auditor General at code@wao.gov.uk or write to him at: 24 Cathedral Road, Cardiff CF11 9LJ.

### Local Government Fees

Our consultation on local government fee scales for 2009-2010 closed at the end of October. Thank you to everyone who submitted comments, the responses are now being considered.

The Auditor General will confirm the finalised fee scales shortly.

### Launching the Good Practice Portal

On 26 November we launched a new online good practice portal – in partnership with seven other public sector organisations.

The goodpracticewales.com web portal aims to be a single point of access to a wide range of examples of good practice and notable practice across the Welsh public services, to help organisations find out who's doing something that might help them.

So far the following bodies have joined us in developing the resource: WLGA; Welsh Assembly Government; National Leadership and Innovation Agency; Social Services Improvement Agency; Excellence Wales; Public Services Management Wales; Partnership Support Unit.

Visit http://www.goodpracticewales.com to see for yourself how it can benefit you.

For more information contact **Chris Bolton** on **029 2032 0662** or email chris.bolton@wao.gov.uk

### Join us on Twitter

You can now follow the Wales Audit Office on Twitter and keep up to date with our latest news online or via your mobile phone.

We will use this social media platform, alongside our other communication methods, to engage with the organisations we work with, journalists and the public. We will use twitter to promote our reports, events, consultations, job vacancies and tender opportunities – among other things.

Follow our English Twitter site – www.twitter.com/WalesAudit

Follow our Welsh Twitter site – www.twitter.com/SwyddfaArchwilio

## Recent Reports

### Auditor General responds to International Peer Review

An international Peer Review of the Wales Audit Office has helped to establish a clear agenda for the organisation to develop.

The Auditor General for Wales has responded to the independent report he commissioned earlier this year. He has set out how the public sector watchdog will build on existing efficiency savings, modify its audit and inspection work to respond to the challenges facing the public sector in Wales, and introduce improvements to the way the Wales Audit Office is directed.

To read the Auditor General's response and the Peer Review, click here.

### NHS Direct

This report, published in September, found that NHS Direct Wales is providing valuable services with some

evidence of user satisfaction but there is scope to better promote its services to the public, particularly older people and those in rural areas.

To read the report, please click here.

For more information, please contact **Gill Lewis** on **029 2032 0563** or email gill.lewis@wao.gov.uk

## Work-based Learning follow-up report

Controls over funding for Work Based Learning providers and the quality of learning provision have improved as a result of the Assembly Government's strengthened audit and performance management. This follow-up report was published in October.

To read the report, click here.

For more information, please contact **Mike Usher** on **029 2032 0568** or email mike.usher@wao.gov.uk.

## Coastal Erosion and Tidal Flooding

The Auditor General's report, published last month, found that current flood defences can't keep pace with environmental change. It calls on stronger leadership and a more risk – based approach to safeguarding our coastline.

To read the report, please click here.

For more information, please contact Alan Morris on **029 2032 0500** or email alan.morris@wao.gov.uk

## Children and Adolescent Mental Health Services

Mental health services for children and young people in Wales are still failing to consistently meet their needs, despite some improvement in recent years.

This report was published jointly with Healthcare Inspectorate Wales, Estyn and Care and Social Services Inspectorate Wales. It is the first time all four audit and inspectorate bodies in Wales have been involved jointly in a major service review.

To read the report, please follow this link.

For more information, please contact **Paul Dimblebee** on **029** 2032 0569 or email paul.dimblebee@wao.gov.uk

# Forthcoming Reports

## Unscheduled Care

We will be publishing the last in our suite of reports on unscheduled care - this time looking at the whole system from the citizen's perspective.

Our first three reports on unscheduled care examined specific modules - Delayed Transfers of Care follow-through, A&E patient handovers and NHS Direct.

This latest report will examine whether there has been sufficient progress in the planning and delivery of unscheduled care from the citizen's perspective.

For more information, please contact **Gill Lewis** on **02920 320 563** or email gill.lewis@wao.gov.uk

## Sustainable Development

This study asks the question: 'Is the Welsh Assembly Government's business decision making process supporting its sustainable development objectives?'

It will focus on the degree to which the Assembly Government embeds good practice in its decision-making and examines the Assembly Government's evolving response, to the challenge of sustainable development, over an extended period.

For more information, please contact **Alan Morris** on **029 2032 0500** or email alan.morris@wao.gov.uk

We hope you find this bulletin useful. However, if you do not wish to receive updates by e-mail please let us know at: info@wao.gov.uk

**The Wales Audit Office will not pass on, sell or in any way use recipients' addresses other than for the distribution of relevant information.**

**Cylchlythyr mis Rhagfyr 2009**
**To see the English version, click here**

Croeso i gylchlythyr **Swyddfa Archwilio Cymru -** y lle i gael y newyddion diweddaraf o'n sefydliad.

**Newyddion allweddol y mis**


- Newidiadau i waith archwilio ac arolygu llywodraeth leol
- Pwyllgor Gwaith Newydd
- Ymgynghori ar ein Cod Ymarfer Archwilio
- Ffioedd Llywodraeth Leol
- Lansio'r Porth Arfer da
- Ein presenoldeb yng nghynadleddau'r hydref
- Ymuno â ni ar Twitter
- Adroddiadau Diweddar
- Adroddiadau sydd ar y Gweill


## Newidiadau i waith Archwilio ac Arolygu Llywodraeth Leol

Yn ein e-bwletin diwethaf, gwnaethom amlinellu'r newidiadau y byddwn yn eu cyflwyno i'n perfformiad a'n gwaith arolygu ar draws llywodraeth leol, awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol - yn dilyn y Mesur Llywodraeth Leol newydd.

Yn ystod mis Hydref, cynhaliwyd cyfres o weithdai manylach gennym ar gyfer Prif Weithredwyr ac Arweinwyr Gwella yn y sector, er mwyn eu cyflwyno i'n methodoleg a'n cynlluniau adrodd newydd.

Daeth cydweithwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymuno â ni gan esbonio bwriad ac effaith y Mesur yn fwy eang. Bellach mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar ganllawiau statudol sy'n ymwneud â'r Mesur.

Mae ein timau cyflwyno newydd bellach wedi cael eu neilltuo i awdurdodau lleol unigol ac maent ar fin dechrau gwaith ar y fframwaith archwilio ac arolygu newydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Jane Holownia** drwy ffonio **029 2032 0565** neu drwy anfon e-bost i jane.holownia@wao.gov.uk

## Pwyllgor Gwaith Newydd

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi apwyntio Pwyllgor Gwaith newydd i ddarparu arddull arwain fwy cyfarwyddol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r strwythur rheoli newydd wedi ei ardystio gan yr Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol o'r sefydliad. Mae'n adleoli y Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd Partneriaeth presennol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cadeirio'r Pwyllgor Gwaith – sydd yn cynnwys tri Partner Rheoli:

- Partner Rheoli Archwiliad Ariannol – Anthony Barrett
- Partner Rheoli Archwiliad Perfformiad – Gillian Body
- Partner Rheoli Cynllunio ac Adnoddau – Kevin Thomas

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth ar strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru.

## Ymgynghori ar ein Cod Ymarfer Archwilio

Mae ein Harchwilydd Cyffredinol wedi adolygu ei God Ymarfer Archwilio er mwyn ystyried Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2009 a'r newidiadau eraill sydd wedi digwydd ers i'r Cod gwreiddiol gael ei gyhoeddi yn 2005.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio yn rhagnodi'r ffordd y bydd archwilwyr yn cyflawni eu swyddogaethau, ac mae'n ymgorffori'r hyn sydd, ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, yn gyfystyr ag arfer proffesiynol gorau.

Ein bwriad yw y bydd y Cod diwygiedig, y mae angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei gymeradwyo, yn cael ei gyhoeddi ac y daw yn weithredol ar 1 Ebrill 2010.

Gellir darllen fersiwn drafft y Cod a chael rhagor o wybodaeth yma.

Byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y Cod diwygiedig erbyn **29 Ionawr 2010.** E-bostiwch yr Archwilydd Cyffredinol yn code@wao.gov.uk neu ysgrifennwch ato: 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

### Ffioedd Llywodraeth Leol

Daeth ein hymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd llywodraeth leol ar gyfer 2009-2010 i ben ddiwedd mis Hydref. Diolch i bawb a gyflwynodd sylwadau, mae'r ymatebion wrthi'n cael eu hystyried.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cadarnhau'r graddfeydd ffioedd terfynol yn fuan.

### Lansio'r Porth Arfer da

Ar 26 Tachwedd gwnaethom lansio porth arfer da newydd ar-lein - mewn partneriaeth â saith sefydliad arall yn y sector preifat.

Nod porth y we goodpracticewales.com yw cynnig un pwynt mynediad i amrywiaeth eang o enghreifftiau o arfer da ac arfer nodedig ym mhob rhan o wasanaethau cyhoeddus Cymru, er mwyn helpu sefydliadau i ganfod pwy sy'n gwneud rhywbeth a allai eu helpu.

Hyd yma mae'r cyrff canlynol wedi ymuno â ni i ddatblygu'r adnodd hwn: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Llywodraeth Cynulliad Cymru; Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi; Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol; Rhagoriaeth Cymru; Rheoli Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Uned Cymorth Partneriaeth.

Ewch i http://www.goodpracticewales.com i weld drosoch eich hun sut y gall fod o fudd i chi.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Chris Bolton** drwy ffonio **029 2032 0662** neu drwy anfon e-bost i chris.bolton@wao.gov.uk

### Ymuno â ni ar Twitter

Mae nawr yn bosibl i chi ddilyn Swyddfa Archwilio Cymru ar Twitter a chael y newyddion diweddaraf ar-lein neu drwy eich ffôn symudol.

Byddwn yn defnyddio'r llwyfan cyfryngau cymdeithasol hwn, ar y cyd â dulliau cyfathrebu eraill, i ymgysylltu â'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda hwy, newyddiadurwyr a'r cyhoedd. Byddwn yn defnyddio Twitter i hyrwyddo ein hadroddiadau, digwyddiadau, ymgynghoriadau, swyddi gwag a chyfleoedd tendro - ymhlith pethau eraill.

Dilynwch ein safle Twitter Cymraeg - www.twitter.com/SwyddfaArchwilio

Dilynwch ein safle Twitter Saesneg - www.twitter.com/WalesAudit

## Adroddiadau Diweddar

### Yr Archwilydd Cyffredinol yn ymateb i Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol

Mae Adolygiad Cymheiriaid rhyngwladol o Swyddfa Archwilio Cymru wedi helpu i lunio agenda glir i'r sefydliad ei datblygu.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ymateb i'r adroddiad annibynnol a gomisiynwyd ganddo yn gynharach eleni. Mae wedi nodi sut y bydd y corff gwarchod sector cyhoeddus yn adeiladu ar arbedion effeithlonrwydd presennol, yn addasu ei waith archwilio ac arolygu i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac yn cyflwyno gwelliannau i'r ffordd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei chyfarwyddo.

I weld ymateb yr Archwilydd Cyffredinol a'r Adolygiad Cymheiriaid, cliciwch yma.

### Galw Iechyd Cymru

Canfu'r adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Medi, fod Galw Iechyd Cymru yn darparu gwasanaethau gwerthfawr gyda pheth tystiolaeth o foddhad defnyddwyr, ond bod lle i hyrwyddo ei wasanaethau i'r cyhoedd, yn arbennig pobl hŷn a'r rheini mewn ardaloedd gwledig.

I ddarllen yr adroddiad, cliciwch yma.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Gill Lewis** drwy ffonio **029 2032 0563** neu drwy anfon e-bost i gill.lewis@wao.gov.uk

Mae rheolaethau ariannu ar gyfer darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith ac ansawdd y ddarpariaeth ddysgu wedi gwella o ganlyniad i ddull rheoli perfformiad ac archwilio cryfach Llywodraeth y Cynulliad. Cyhoeddwyd yr adroddiad dilynol hwn ym mis Hydref.

I ddarllen yr adroddiad, cliciwch yma.

I gael ragor o wybodaeth cysylltwch â **Mike Usher** drwy ffonio **029 2032 0568** neu drwy anfon e-bost i mike.usher@wao.gov.uk

## Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw

Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd fis diwethaf, na all amddiffynfeydd llifogydd presennol ymdopi â newid amgylcheddol. Mae'n galw am arweinyddiaeth gryfach a dull o ddiogelu ein morlin sy'n fwy seiliedig ar risgiau.

I ddarllen yr adroddiad, cliciwch yma.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Alan Morris drwy ffonio **029 2032 0500** neu drwy anfon e-bost i alan.morris@wao.gov.uk

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

Mae gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn dal i fethu â diwallu eu hanghenion yn gyson, er gwaethaf rhai gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Dyma'r tro cyntaf i'r pedwar corff archwilio ac arolygu yng Nghymru gymryd rhan mewn adolygiad mawr o wasanaethau gyda'i gilydd.

I ddarllen yr adroddiad, dilynwch y ddolen hon.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Paul Dimblebee** drwy ffonio **029 2032 0569** neu drwy anfon e-bost i paul.dimblebee@wao.gov.uk

# Adroddiadau sydd ar y ffordd

## Gofal Heb ei Drefnu

Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad olaf yn ein cyfres o adroddiadau ar ofal heb ei drefnu - gan edrych y tro hwn ar y system gyfan o safbwynt y dinesydd.

Roedd ein tri adroddiad cyntaf ar ofal heb ei drefnu yn archwilio modiwlau penodol -gwaith dilynol ar achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal, trosglwyddo cleifion i adrannau damweiniau ac achosion brys a Galw Iechyd Cymru.

Bydd yr adroddiad diweddaraf hwn yn ystyried a wnaed cynnydd digonol o ran cynllunio a darparu gofal heb ei drefnu o safbwynt y dinesydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Gill Lewis** drwy ffonio **029 2032 0563** neu drwy anfon e-bost i gill.lewis@wao.gov.uk

## Datblygu Cynaliadwy

Mae'r astudiaeth hon yn holi: ‘A yw proses gwneud penderfyniadau busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ei hamcanion datblygu cynaliadwy?’

Bydd yn canolbwyntio ar i ba raddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu arfer da wrth wneud penderfyniadau ac yn ystyried ymateb datblygol Llywodraeth y Cynulliad i her datblygu cynaliadwy dros gyfnod estynedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag **Alan Morris** drwy ffonio **029 2032 0500** neu drwy anfon e-bost i alan.morris@wao.gov.uk

Gobeithiwn y bydd y bwletin hwn o ddefnydd i chi. Fodd bynnag, os nad ydych am dderbyn y newyddion diweddaraf drwy e-bost, rhowch wybod i ni yn: info@wao.gov.uk.

dros yr e-bost rhowch wybod i ni yn: info@wao.gov.uk.

**Ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn trosglwyddo cyfeiriadau derbynwyr, yn eu gwerthu nac yn eu defnyddio mewn unrhyw ffordd ac eithrio ar gyfer dosbarthu gwybodaeth berthnasol.**